

## TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Gradd Unigol)

### 1 Addasiadau ar gyfer 2021

Cyhoeddwyd addasiadau i'r Asesiad Di-arholiad ym mis Medi 2020 ac maent wedi'u hamlinellu [yma](#).

### 2 Gofynion allweddol i sicrhau dilyniant

Yn Uned 1 mae gofyn i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pedwar maes cynnwys a nodir ar dudalennau 11-17 y fanyleb.

Yn Uned 2 mae gofyn i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r tri maes cynnwys a nodir ar dudalennau 20-24 y fanyleb.

I sicrhau dilyniant, dylid rhoi digon o sylw i'r holl ofynion eang yn y fanyleb ond gall y ganolfan ddewis ymdrin yn fanylach â rhai agweddau. Rhwng y ddwy uned i'w gwneud, dylid ymdrin â phob un o'r tri amcan asesu.

### 3 Enghreifftiau o dystiolaeth dysgwyr

Dylai dysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth eu hunain ym mhob un o'r tri amcan asesu.

Gellir defnyddio Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE) y mae CBAC wedi'u darparu, ynghyd â'r Asesiad Di-arholiad, i ddangos digon o dystiolaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth pob dysgwr unigol. Os defnyddir y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol i gynhyrchu tystiolaeth o ddysgu, nid oes angen eu cwblhau i gyd mewn un sesiwn fel 'arholiad'. Mae'n bosibl eu rhannu'n adrannau i gyfateb i'r rhaglen ddysgu.

Nid yw canolfannau wedi'u cyfyngu i ddefnyddio'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol fydd wedi'u darparu. Dylai canolfannau, wrth fynd ati i lunio eu hasesiadau eu hunain, gyfeirio at Ganllawiau Creu Asesiadau CBAC [yma](#) gan ystyried bod angen i ddysgwyr gael mynediad teg i'r asesiadau; bod ehangder a dyfnder gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn cael eu samplu'n ddigonol ganddyn nhw; a bod modd eu marcio'n gywir ac yn gyson.

Wrth asesu'r meysydd astudio, cynghorir canolfannau i ystyried sut bydd CBAC yn samplu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth fel arfer ym mhob cyfres arholiadau.

#### 4 Ffurio barn

Dylid defnyddio model ffit orau i bennu gradd pob dysgwr. Bydd gwneud hynny'n cydbwysu cryfderau mewn rhai meysydd â diffygion mewn mannau eraill. Dylai canolfannau, wrth bennu'r radd, ystyried pwysoli'r unedau a'r amcanion asesu yn y fanyleb (gan gynnwys effaith unrhyw addasiadau) a hefyd tystiolaeth pob dysgwr mewn perthynas â'r disgrifiadau o'r graddau fydd i'w cael erbyn w/c 15 Mawrth 2021. Dylent hefyd ystyried amodau sefyll yr asesiad, e.e. dan oruchwyliaeth/heb oruchwyliaeth, hyd, ac ati.

Dylai'r radd derfynol fod yn seiliedig ar benderfyniad ar sail y dystiolaeth ar draws yr unedau a'r amcanion asesu, gan dalu sylw i unrhyw addasiadau a wnaed ar gyfer 2021. Ynndo'i hun, ni fydd dangos tystiolaeth o gyflawniad uchel mewn un agwedd gul ar y fanyleb, yn ddigon i gyfiawnhau gradd uchel.

*Os ydych chi'n fyfyrwr: bydd angen i'ch ysgol neu goleg wneud yn siŵr eich bod yn ymdrin yn ddigon eang â'r cymhwyster fel bod modd rhoi gradd i chi yn yr haf er mwyn i chi allu symud ymlaen.*

*Os ydych chi'n athro/athrawes: mae gwybodaeth ac arweiniad manwl i'r canolfannau ar gael ar ein gwefan ddiogel.*